**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9:45am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 6 Gorffennaf 2023**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Prys Morgan, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Lesley Griffiths AoS, Gweinidog Materion Gwledig – ar gyfer sesiwn diweddaru'r Gweinidog
Karla Price, Llywodraeth Cymru
Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** Jo Horder (Ysgrifenyddiaeth)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)
Heather McCalman (Cydgysylltydd Darparu Rhaglenni – Eitem 6f
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)
Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)
John Richards (Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr) - Eitem 6f
Eleri Thomas (Swyddog Gweithredol Ansawdd Cig) – Eitem 6f

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawyd pawb i gyfarfod y Bwrdd gan y Cadeirydd.

Yn absenoldeb y Prif Weithredwr, nodwyd bod y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol ar hyn o bryd yn Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:

9 Mai 2023 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

16 Mai 2023 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Ngŵyl Ddefaid NSA Cymru, Aberhafesb.

17 Mai 2023 – Bu'r Cadeirydd yng Nghynhadledd Menywod mewn Cig, Llundain.

8 Mehefin 2023 – Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams yn cael ei ddilyn gan gyfarfod Llywodraethiant rhithwyr rhwng Llywodraeth Cymru a HCC, ynghyd â'r Swyddogion Gweithredol.

15 Mehefin 2023 – Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams.

20 Mehefin – Bu'r Cadeirydd yn nigwyddiad Dathlu Bwyd a Ffermio NFU Cymru yng Nghaerdydd.

27 Mehefin – Bu’r Cadeirydd a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi’r Dyfodol yng Nghinio Cymreig Blynyddol Cymdeithas Milfeddygon Prydain yng Nghaerdydd.

29 Mehefin – Bu’r Cadeirydd mewn cyfarfod rhithwyr o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau ar gyfer y Prif Weithredwr a oedd ar hyn o bryd yn absennol oherwydd salwch.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nodwyd bod Emlyn Roberts nawr yn Llywydd Farmers Marts, Dolgellau.

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd eraill.

4. **I gymeradwyo cofnodion:**

*a.* *Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Mai 2023 (HCC 1140)*

b. *Cyfarfod diweddaru’r Bwrdd a gynhaliwyd drwy Teams ddydd Iau 8 Mehefin 2023 (HCC 1141)*

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfodydd uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Digwyddiadau i Ddod*

Nodwyd bod y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau wedi darparu papur manylach ar gyfer y digwyddiadau i ddod (gweler eitem 6c ar yr agenda).

Dywedodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol wrth y Bwrdd y byddai canfyddiadau'r Archwiliadau Bioamrywiaeth yn cael eu lansio yn Sioe Frenhinol Cymru ac y byddai crynodeb dwy dudalen o'r prif adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

*Sioe Frenhinol Cymru 24 – 27 Gorffennaf 2023*

Nodwyd bod briff llawn wedi'i baratoi a'i rannu fel eitem 6d ar yr agenda

*Adolygiad o Bwyllgorau HCC*

Nodwyd bod Cylch Gorchwyl Pwyllgorau HCC wedi’i rannu ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ar 8 Mehefin 2023.

*Bwrdd HCC a Chyfathrebiadau*

Dywedodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau fod briffio’r cwrs diweddaru wedi'i gynnwys yn y papur briffio dan eitem 6d ar yr agenda.

O ran diweddariadau Teams y Bwrdd, dywedodd y Cadeirydd y byddai’r cyfarfodydd diweddaru a drefnwyd ar gyfer 5 Hydref 2023 a 1 Chwefror 2024, er budd aelodau newydd y Bwrdd, yn parhau ac y byddai’r gofyniad yn cael ei adolygu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesa.

*Prif Swyddog Milfeddygol newydd Cymru*

Nodwyd bod e-bost wedi'i anfon at Dr Irvine i fynychu cyfarfod o’r Bwrdd yn y dyfodol a'u bod yn aros am ymateb.

*4b –* Dydd Iau 8 Mehefin 2023 Cyfarfod Teams o’r Bwrdd

*Drafftio Cylch Gorchwyl i Grŵp Arloesedd ac Ymchwil Cynaliadwy HCC.*

Dywedodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol fod aelodaeth y Grŵp hwn yn parhau i fod yn waith ar y gweill.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Gweithgareddau (HCC 1142)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

**Croesawu Lesley Griffiths AoS, y Gweinidog Materion Gwledig**

Croesawodd y Cadeirydd Lesley Griffiths AoS i'r cyfarfod. Cyflwynodd pedwar aelod newydd y Bwrdd eu hunain i'r Gweinidog.

Croesawodd y Gweinidog yr aelodau newydd a diolchodd y Bwrdd am ei waith parhaus.

Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd a chafwyd trafodaeth wedyn.

Rhoddodd Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi’r Dyfodol y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran prisiau cig oen a chig eidion a’r marchnadoedd mewnforio ac allforio.

Nodwyd bod camau terfynol prosiectau’r Rhaglen Datblygu Cig Coch yn cael eu cwblhau. Byddai gwaith etifeddol yn parhau i adeiladu ar ganlyniadau’r prosiectau, gan gynnwys tanategu negeseuon brand ar gyfer Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI mewn perthynas ag iechyd a maeth, cynaliadwyedd ac adfer byd natur.

Cynigwyd papur briffio llawn mewn perthynas â chyflwyniad y Swyddogion Gweithredol i’r Gweinidog cyn Sioe Frenhinol Cymru. Cytunodd y Gweinidog y byddai hynny’n ddefnyddiol.

Daeth Jack Evershed â’r sesiwn i ben, gan ddiolch i'r Gweinidog am ei diweddariad a'i mewnbwn i'r cyfarfod.

b. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1143)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

c. *Digwyddiadau i ddod (HCC 1144)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Cafodd fformat newydd yr adroddiad dderbyniad da gan y Bwrdd.

d. *I gael manylion am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 24 – 27 Gorffennaf 2023 (HCC 1145)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau.

Nodwyd er ymwybyddiaeth y byddai'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn dechrau ymgynghoriad yn Lloegr ar gynyddu cyfraddau'r Ardoll.

e. *<u>I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI 2023 – 2024</u>*

Cyflwynwyd yr uchod gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau.

Roedd y cyflwyniad yn esbonio amcanion yr ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth a chanfyddiad o'r brand, y gwahanol gynulleidfaoedd targed, y prif negeseuon ar gyfer pob un a'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y cyfryngau. Cydnabu'r Cadeirydd y gwaith a wnaed i ddatblygu'r ymgyrch

Cydnabu'r Cadeirydd y gwaith a wnaed i ddatblygu'r ymgyrch.

f. *<u>Derbyn cyflwyniad ar y Rhaglen Datblygu Cig Coch – Casgliadau a Chanlyniadau Allweddol</u>*

Cafodd John Richards, Eleri Thomas a Heather McCalman o dîm y Rhaglen Datblygu Cig Coch eu croesawu gan y Cadeirydd.

Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniadau cryno ar bob un o'r prosiectau, sef Stoc+, y Cynllun Hyrddod Mynydd ac Ansawdd Cig Cig Oen Cymru, gan amlygu'r prif gasgliadau a chanlyniadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am y crynodebau ac ychwanegodd fod y rhaglen wedi dangos rhai llwyddiannau eithriadol a oedd yn dyst i waith caled yr holl dîm a fu'n ymwneud â'r prosiectau.

7. **<u>Pwyllgorau HCC</u>**

<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>

*<u>I dderbyn adroddiad a mabwysiadu'r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 12 Mehefin 2023 (HCC 1146)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei ddefnyddio'n adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

Mabwysiadwyd y cofnodion gan y Bwrdd.

8. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

Nid oedd unrhyw fater arall.

9. **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod</u>**

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 7 Medi 2023 [yr amser i'w gadarnhau]
Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 5 Hydref 2023 am 9.30am

**<u>DILYNWYD GAN SESIWN BWRDD CAEEDIG HCC</u>**

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**